# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Tammy Wiosna**

**Gabalfa**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

15/01/2020

# Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2020.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

| Graddau | Yr hyn y mae'r graddau yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle mae gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae'r gwarchodwr plant wedi'i chofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) i ofalu am bedwar plentyn hyd at 12 oed. Mae'n rhedeg y gwasanaeth o'i chartref yn ardal Ystum Tâf, Caerdydd, y mae'n ei rannu â'i gŵr a'u tri o blant oed ysgol. Yr oriau agor yw 7.45am i 6pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener, drwy gydol y flwyddyn. Mae'r gwasanaeth hwn yn defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg.

## Crynodeb

| Thema | Gradd |
|---|---|
| Llesiant | Da |
| Gofal a Datblygiad | Da |
| Yr Amgylchedd | Da |
| Arwain a Rheoli | Da |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant wedi ymlacio ac yn gyfforddus yng nghartref y gwarchodwr plant. Maent yn derbyn gofal a sylw unigol a gynllunnir er mwyn diwallu eu hanghenion unigol. Mae cydberthnasau agos yn amlwg ac mae'r plant yn setlo'n dda. Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac yn ddeniadol a cheir digon o adnoddau, sydd wedi'u trefnu fel y byddant yn hawdd i'r plant gael gafael arnynt. Mae'r systemau rheoli'n effeithiol ac mae'r gwarchodwr plant yn awyddus i wella ei gwasanaeth yn barhaus.

### 2. Gwelliannau

Mae'r argymhellion a wnaed yn ystod yr arolygiad diwethaf wedi cael eu rhoi ar waith:

- Mae'r gwarchodwr plant wedi cwblhau hyfforddiant Hylendid Bwyd;
- Mae'r datganiad o ddiben yn cynnwys y ffordd y mae AGC yn ymdrin â chwynion a manylion cyswllt y gwarchodwr plant, ac mae'n nodi'n glir nifer y plant y gellir gofalu amdanynt yn unol â'r cofrestriad;
- Mae'r gwarchodwr plant yn cadw cofnodion ysgrifenedig o brofion larwm mwg; a
- Mae'r gwarchodwr plant wedi'i chofrestru â'r Asiantaeth Safonau Bwyd.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Ni nodwyd unrhyw faterion diffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.

Gwnaethom rai argymhellion arfer da a amlinellir yn yr adroddiad ac a grynhoir yn adran 5.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 1. Llesiant Da

### Crynodeb

Mae'r plant yn ddiogel, yn hapus ac yn cael eu gwerthfawrogi yn y gwasanaeth. Mae amrywiaeth dda o weithgareddau diddorol ar gael iddynt ac maent yn gallu meithrin cydberthnasau agos. Mae'r plant yn cael budd o ddull cyson sydd wedi'i gynllunio o ddarparu eu gofal, ac maent yn gyfforddus ac wedi setlo'n dda.

### Ein canfyddiadau

Mae'r plant yn cael cymorth i wneud dewisiadau a chaiff eu dewisiadau eu parchu. Cânt eu hannog i leisio barn er mwyn helpu i benderfynu ar y gweithgareddau o ddydd i ddydd. Gwrandewir ar y plant yn ofalus, sy'n eu hannog i gymryd rhan ymhellach. Caiff y plant iau opsiynau i'w helpu i wneud penderfyniadau am yr hyn y gallant ei wneud yn y gwasanaeth. Mae'r plant hŷn yn fwy hyderus i ofyn am y pethau y mae arnynt eu heisiau. Roedd y plant yn llawn cyffro wrth iddynt ddweud wrthym am eu hoff weithgareddau, fel chwarae â doliau, toes 'play doh' a phosau.

Mae'r plant wedi setlo'n dda iawn ac mae'r gwarchodwr plant wedi sefydlu arferion dyddiol da ar eu cyfer. Mae llawer o'r plant wedi mynychu'r gwasanaeth ers nifer o flynyddoedd ac maent yn gyfarwydd â'r drefn ac yn gyfforddus yng ngofal y gwarchodwr plant. Mae'r plant yn mynd ati i gael cysur a thawelwch meddwl a chânt ymateb gofalgar ganddi. Nid oedd ein presenoldeb yn poeni dim ar y plant ac roeddent yn sgwrsio â ni'n hapus, a oedd yn dangos eu bod yn teimlo'n ddiogel yng nghartref y gwarchodwr plant. Mae gwaith y plant yn cael ei arddangos ar y waliau ac mae ganddynt eu bachau cotiau unigol eu hunain sy'n rhoi ymdeimlad o berthyn iddynt.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae'r plant yn chwarae gyda'i gilydd yn braf, yn rhannu adnoddau ac yn barod i helpu ei gilydd. Er enghraifft, gwnaeth y plant weithio gyda'i gilydd yn dda er mwyn cwblhau jig-so mawr. Maent yn chwarae'n hapus gyda'i gilydd neu wrth ymyl ei gilydd, mewn ffordd sy'n briodol i'w hoedran a'u cam datblygu, ac maent yn dod yn sensitif i anghenion pobl eraill. Mae'r plant yn mwynhau cymdeithasu wrth fynychu cylchoedd chwarae lleol a chwrdd â phlant gwarchodwyr plant eraill.

Mae'r plant yn mwynhau treulio amser yn y gwasanaeth. Maent yn ymroi'n addas i amrywiaeth dda o weithgareddau. Gwelsom y plant yn dilyn eu diddordebau eu hunain ac yn arwain eu dysgu. Er enghraifft, aeth un plentyn ati i lapio dol mewn blanced yn gariadus a gwnaeth wahodd plentyn arall i chwarae mam a dad. Gwnaeth y plant ddyfalbarhau â'u gweithgareddau am gyfnod priodol o amser ac ymateb yn gadarnhaol iawn pan ddaeth y gwarchodwr plant i chwarae gyda nhw.

Mae'r plant yn cael eu hannog i ddatblygu eu diddordebau a'u hannibyniaeth. Maent yn helpu eu hunain yn hyderus ac yn mwynhau cael cyfle i gyflawni'r gweithgareddau y maent wedi'u dewis. Mae'r plant yn rhoi eu teganau i gadw'n daclus; fe'u clywsom yn siantio 'team work' wrth iddynt dacluso gyda'i gilydd er mwyn paratoi ar gyfer cinio. Mae'r plant yn golchi eu dwylo eu hunain ac yn helpu i baratoi byrbryd. Mae'r cyfleoedd hyn yn helpu'r plant i feithrin sgiliau hunangymorth sy'n briodol i'w hoedran.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 2. Gofal a Datblygiad **Da**

### Crynodeb

Mae'r gwarchodwr plant yn ymarferydd gofal plant profiadol a hyderus. Mae wedi datblygu ystod dda o systemau effeithiol er mwyn sicrhau yr ystyrir iechyd a diogelwch y plant ac y diwellir eu hanghenion. Mae wedi rhoi'r polisïau a'r gweithdrefnau gofynnol ar waith er mwyn hybu canlyniadau cadarnhaol i'r plant.

### Ein canfyddiadau

Mae gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth dda o'i chyfrifoldeb i ddiogelu plant. Roedd polisi amddiffyn plant ar waith. Fodd bynnag, nid oedd y polisi yn cyfeirio at y ddyletswydd Prevent. Strategaeth gan lywodraeth y DU yw Prevent sy'n amddiffyn plant rhag peryglon eithafiaeth a radicaleiddio. Nid yw'r gwarchodwr plant wedi cwblhau hyfforddiant Prevent. Mae'n hyderus yn ei gallu i nodi unrhyw faterion sy'n ymwneud â diogelu ac yn glir ynghylch ei dyletswydd i gyfeirio unrhyw bryderon yn ymwneud â lles plentyn at yr awdurdod priodol. Caiff damweiniau eu cofnodi'n briodol ar gyfer oedran a cham datblygu'r plant. Mae gan y gwarchodwr plant dystysgrif cymorth cyntaf berthnasol ac mae'n archwilio'r pecyn cymorth cyntaf yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn gyflawn a bod yr eitemau ynddo o fewn eu dyddiad defnyddio. Mae wedi sefydlu arferion hylendid da, gan leihau'r risg o groes-heintio. Er enghraifft, defnyddir chwistrell gwrthfacterol i lanhau byrddau ac arwynebau cyn i fwyd gael ei weini. Mae'r plant yn golchi eu dwylo â dŵr a sebon yn rheolaidd ac yn sychu eu dwylo â thywelion unigol. Mae'r gwarchodwr plant yn darparu byrbrydau a phrydau iach ac mae dŵr yfed ar gael i'r plant drwy gydol y dydd. Fodd bynnag, nid oedd yn ymwybodol o ganllawiau bwyd a maeth diweddaraf Llywodraeth Cymru ar gyfer lleoliadau gofal plant.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae polisi rheoli ymddygiad ar waith a dywedodd y gwarchodwr plant wrthym ei bod yn defnyddio strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol i hybu lles y plant. Mae'n ystyried oedran a cham datblygu'r plant ac yn deall bod y ffactorau hyn yn effeithio ar ymddygiad y plant. Clywsom y gwarchodwr plant yn canmol y plant am eu hymdrechion ac am ymddwyn yn garedig a gwelsom ei bod yn defnyddio technegau tynnu sylw i ailbennu ffocws y plant yn ôl yr angen. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau nad yw'r plant yn gorflino nac yn mynd yn llwglyd ac mae'n rheoli ac yn paratoi'r amgylchedd ymlaen llaw er mwyn sicrhau y gall barhau i ganolbwyntio ar ddiwallu eu hanghenion. Mae'r gwarchodwr plant yn fodel rôl cadarnhaol ac mae'n ymdrechu i gynnal amgylchedd digynnwrf bob amser.

Mae'r plant yn teimlo'n gyfforddus yng ngofal y gwarchodwr plant sy'n hybu eu dysgu a'u datblygiad. Mae'r gwarchodwr plant yn cofnodi'r hyn y mae'r plant cyn ysgol yn ei ddysgu drwy ddefnyddio dyddiaduron dysgu unigol. Gwnaethom drafod y ffaith bod y rhain yn adnodd ystyrlon wrth gynllunio'r camau nesaf yn natblygiad y plant. Mae'r gwarchodwr plant

yn agored i ystyried dulliau gwerthuso amgen. Mae'r gwarchodwr plant yn annog y plant i ddatblygu dealltwriaeth o ddiwylliant Cymru a diwylliannau eraill drwy ddathlu gwyliau drwy gydol y flwyddyn. Mae'r rhain yn cynnwys Diwali, y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a Dydd Gŵyl Dewi. Mae'r gwarchodwr plant yn gwneud defnydd da o Gymraeg achlysurol gyda'r plant di-Gymraeg ac yn siarad yn naturiol â'r plant Cymraeg eu hiaith yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 3. Yr Amgylchedd Da

### Crynodeb

Mae cartref y gwarchodwr plant yn ddiogel, yn ddeniadol ac mewn cyflwr da. Defnyddir llawr gwaelod y cartref, sy'n cynnwys cegin, ystafell fwyta, ystafell chwarae agored a chyfleusterau ystafell ymolchi. Gellir mynd allan i'r ardd drwy'r ystafell chwarae a'r ystafell fwyta, lle ceir ardal dan do ddeniadol y gellir ei defnyddio ym mhob tywydd. Caiff sylw da ei roi i ddiogelwch. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y plant yn cael eu goruchwylio'n dda bob amser.

### Ein canfyddiadau

Mae'r amgylchedd yn lân, mewn cyflwr da ac yn ddiogel. Mae'r gwarchodwr plant yn cynnal archwiliadau diogelwch bob dydd, a chynhelir asesiadau risg ar gyfer yr amgylchedd dan do a'r amgylchedd awyr agored, yn ogystal ag ar gyfer teithiau i'r gymuned. Caiff asesiadau risg eu hadolygu a'u diweddaru’n rheolaidd. Caiff y drws ffrynt ei gloi bob amser a chaiff cofnod ei gadw o unrhyw ymwelwyr pan fydd y plant sy'n cael gofal yn bresennol. Cedwir cofrestr o'r plant sy'n mynychu bob dydd, sy'n cynnwys yr amser y byddant yn cyrraedd ac yn gadael, yn unol â'r gofynion. Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod yswiriant atebolrwydd cyhoeddus wedi'i drefnu. Caiff sylw da ei roi i ddiogelwch tân a chaiff y larymau mwg eu harchwilio'n rheolaidd.  Mae'r gwarchodwr plant yn cynnal ymarferion tân rheolaidd gyda'r plant i gyd. Wrth gofnodi'r ymarferion tân, nodir gwybodaeth lawn am ymarferion gwagio er mwyn nodi unrhyw beryglon neu anawsterau a gafwyd y gellid eu hosgoi yn y dyfodol.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae cartref y gwarchodwr plant yn groesawgar, yn canolbwyntio ar y plant ac yn darparu amgylchedd cyfoethog ar gyfer chwarae a dysgu'r plant. Mae cyfleusterau da a digon o le i'r plant chwarae ac ymlacio yn gyfforddus. Mae'r ystafell chwarae wedi'i threfnu o safbwynt y plentyn a chaiff yr adnoddau eu storio fel y byddant yn hawdd i'r plant gael gafael arnynt. Gwnaethom drafod labelu adnoddau er mwyn hyrwyddo annibyniaeth a dewis y plant ymhellach. Caiff gwaith y plant ac amrywiaeth eang o bosteri addysgiadol eu harddangos ar waliau'r ystafell chwarae. Gall y plant ymlacio yn ôl yr angen ar soffa gyfforddus. Maent yn mwynhau defnyddio'r ardd, sy'n cynnwys cyfarpar da ac amrywiaeth o adnoddau gan gynnwys tŷ chwarae pren mawr â llithren a wal ddringo, siop bren a bwrdd sialc enfawr. Mae cyfleusterau toiled glân a ffres ar gael i'r plant wrth ymyl yr ystafell chwarae.

Mae'r adnoddau a ddarperir gan y gwarchodwr plant yn addas ar gyfer anghenion y plant a gwelsom fod y gweithgareddau a'r gemau yn briodol ar gyfer eu hoedrannau ac yn cynnig amrywiaeth a dewis da. Mae'r rhain yn cefnogi eu dysgu a'u diddordebau, ac yn cynnwys posau, llyfrau, celf a chrefft ac adnoddau awyr agored. Fodd bynnag, ni welsom fawr ddim

adnoddau i hybu amlddiwylliannaeth, cydraddoldeb nac amrywiaeth. Mae'r gwarchodwr plant yn glanhau'r teganau'n rheolaidd ac yn cael gwared ar unrhyw beth sydd wedi torri.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 4. Arwain a Rheoli Da

### Crynodeb

Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli ei gwasanaeth yn effeithlon gan roi ystyriaeth briodol i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ac i'r Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru). Mae'n llawn cymhelliant ac yn agored i ddatblygiadau newydd. Mae'n arddangos hyder a sgil wrth hyrwyddo canlyniadau cadarnhaol i'r plant a'u teuluoedd.

### Ein canfyddiadau

Mae'r gwarchodwr plant yn trefnu ei gwasanaeth yn effeithiol. Ceir datganiad o ddiben sy'n cynnig darlun cywir o'r gwasanaeth, a darperir copi ohono i'r rheini. Fodd bynnag, mae angen diweddaru'r ddogfen er mwyn adlewyrchu'r holl anifeiliaid anwes sydd yn y cartref, a chynnwys y manylion cyswllt diweddaraf ar gyfer AGC. Mae'r gwarchodwr plant wedi'i chofrestru â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac mae'n deall yr angen am gyfrinachedd. Mae hi'n gysylltiedig â sefydliad gwarchod plant cenedlaethol sy'n darparu gwybodaeth a chymorth yn ôl yr angen. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod ganddi hi a'i phartner wiriad cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, ac mae wedi cwblhau cyrsiau hyfforddi priodol ar gymorth cyntaf, hylendid bwyd ac amddiffyn plant. Mae'r holl bolisïau a gweithdrefnau gofynnol ar waith, ond nid yw'r polisïau'n cael eu dyddio i ddangos eu bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae systemau da ar waith i werthuso'r gwasanaeth a chynllunio ar gyfer gwella. Gwelsom gopïau o holiadur a anfonwyd at y rhieni i ofyn a yw'r gwasanaeth yn diwallu anghenion y plant ac i geisio adborth am ansawdd y gofal. Mae'r adborth gan y rhieni yn gadarnhaol yn gyson, ac yn dangos bod y rhieni yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd a gaiff y plant i gwrdd â phlant eraill mewn awyrgylch magwrus. Er enghraifft '(*enw'r plant) have thrived under Tammy's care. I love that they go to groups, regular walks and to the shops'.* Mae polisi cwyno ar waith, ond nid oes unrhyw gwynion wedi dod i law. Gwnaethom drafod yr angen i ddiweddaru'r polisi er mwyn amlinellu gweithdrefnau i blant dros wyth oed eu defnyddio i wneud cwynion, yn sgil bwriad y gwarchodwr plant i ofalu am blant hŷn yn y dyfodol agos.

Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli ei gwasanaeth yn llwyddiannus. Mae'n cadw cofnodion trefnus o'i chymwysterau a'i hyfforddiant. Mae dogfennaeth a chofnodion a gesglir pan gaiff y plant eu cofrestru yn ei helpu i drefnu ei gwasanaeth yn dda. Nid yw'r gwarchodwr plant yn cyflogi cymhorthydd. Dywedodd wrthym fod ganddi gynllun wrth gefn ar waith gyda gwarchodwyr plant eraill pe byddai argyfwng neu sefyllfa na ellir ei rhagweld yn digwydd. Mae gan y gwarchodwr plant rwydwaith cymorth da hefyd gyda gwarchodwyr plant lleol eraill; maent yn cyfarfod yn rheolaidd er mwyn galluogi'r plant i chwarae gyda'i gilydd ac maent yn rhannu arfer da.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Gwnaethom drafod yr argymhellion arfer da canlynol gyda'r gwarchodwr plant;

- Diweddaru'r polisi amddiffyn plant i gynnwys gwybodaeth am PREVENT;
- sicrhau bod ffeiliau datblygu'r plant yn cynnwys y camau dysgu nesaf;
- ystyried canllawiau arfer gorau diweddaraf Llywodraeth Cymru, sef Bwyd a Maeth ar gyfer Lleoliadau Gofal Plant;
- ystyried labelu adnoddau yn ddwyieithog er mwyn hybu dewis ac annibyniaeth y plant ymhellach;
- chwilio am ragor o adnoddau sy'n hybu amlddiwylliannaeth, cydraddoldeb ac amrywiaeth;
- diweddaru'r datganiad o ddiben er mwyn adlewyrchu'r holl anifeiliaid anwes sydd yn y cartref a'r manylion cyswllt diweddaraf ar gyfer AGC;
- sicrhau y caiff polisïau eu dyddio er mwyn dangos eu bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd;
- diweddaru'r polisi cwynion er mwyn nodi sut y gall plant dros wyth oed wneud cwyn.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau. Cynhaliodd un arolygydd ymweliad â'r gwasanaeth a gafodd ei gyhoeddi ar fyr rybudd er mwyn sicrhau argaeledd. Defnyddiwyd y fethodoleg ganlynol i gasglu tystiolaeth ar gyfer yr adroddiad hwn:

- Gwnaethom siarad â'r ddau blentyn a oedd yn bresennol;
- gwnaethom edrych ar holiaduron adborth gan y rhieni;
- gwnaethom edrych ar y wybodaeth a ddelir gan AGC;
- gwnaethom edrych ar amrywiaeth eang o gofnodion. Roedd y rhain yn cynnwys y datganiad o ddiben, asesiadau risg, copïau o bolisïau gan gynnwys diogelu, cofnodion diogelwch a chofnodion monitro;
- gwnaethom gynnal archwiliad gweledol o'r safle a ddefnyddir gan y plant;
- gwnaethom roi adborth i'r gwarchodwr plant dros y ffôn ar 16 Ionawr 2020.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gwarchodwr Plant** |
| **Person Cofrestredig** | **Tammy Wiosna** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **4** |
| **Ystod oedran y plant** | **Geni hyd at 12 oed** |
| **Oriau agor** | **Rhwng 7.45am a 6.00pm o ddydd Llun i ddydd Gwener** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Y ddwy** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **8 Medi 2015** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **15 Ionawr 2020** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Nid yw'n rhagweld, yn nodi nac yn diwallu anghenion Cymraeg pobl/plant sy'n defnyddio ei wasanaeth neu sy'n bwriadu gwneud hynny. Argymhellwn y dylai'r darparwr gwasanaeth ystyried fframwaith strategol olynol '*Mwy na Geiriau...*' Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg mewn gofal cymdeithasol.** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol: Dim** | |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**Dyddiad Cyhoeddi** 04/03/2020

Nid oedd gan unrhyw gofnodion diffyg cydymffurfio statws Agored.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi